Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Pan fydd y Gwasanaethau i Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn cymryd rhan

Taflen wybodaeth i blant a phobl ifanc

(12-18)

Beth fydd yn digwydd?



Pwy all roi cymorth i mi?


Bydd y daflen wybodaeth hon yn eich helpu chi i ddeall beth fydd yn digwydd os yw'r Gwasanaethau i Blant yn poeni amdanoch chi a'ch teulu.

Ar gefn y daflen, mae tudalen wag i chi ysgrifennu neu dynnu llun o unrhyw beth pwysig yr hoffech chi ei gofio. Gallwch chi hefyd ei defnyddio i ysgrifennu unrhyw feddyliau, teimladau neu gwestiynau sydd gennych chi.

**Mae gennych chi'r hawl i gael eich clywed ac i'ch barn gael ei hystyried o ddifrif. Weithiau mae'n gallu bod yn anodd mynegi sut rydych chi'n teimlo ac efallai eich bod chi'n meddwl nad yw eich llais yn cael ei glywed. Dyma pan fyddwch chi angen cymorth eiriolwr o bosibl. Mae eiriolwyr yn annibynnol ac nid ydyn nhw'n gweithio i'r Gwasanaethau i Blant, ond byddan nhw'n eich cynorthwyo chi i sicrhau bod eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau'n cael eu clywed; egluro eich sefyllfa; a'r rhesymau dros benderfyniadau penodol.**

# Cynhadledd Amddiffyn Plant

## Pwy allai fod yno?



Chi a/neu'ch eiriolwr



Eich rhieni/gofalwyr/aelodau o'r teulu



Eich Gweithiwr Cymdeithasol



Rhywun o'r ysgol/coleg



Nyrs ysgol/eich meddyg teulu




Yr heddlu

# Cynhadledd Amddiffyn Plant

## Beth allai ddigwydd?



Bydd pob gweithiwr proffesiynol wedi ysgrifennu adroddiad am yr hyn y maen nhw'n meddwl sy'n mynd yn dda i chi a'ch teulu a'r hyn y maen nhw'n poeni amdano.



Bydd trafodaeth am y risg o niwed sylweddol, profiadau uniongyrchol aelodau o'r teulu, eu dymuniadau a'u teimladau, a'r hyn yr hoffen nhw ei newid.



Ni fydd modd rhannu rhywfaint o wybodaeth â chi ac efallai y bydd rhannau o'r cyfarfod na fyddwch chi'n gallu bod yn bresennol ynddyn nhw.



**Mae eich llais chi'n bwysig iawn a byddwch chi neu'ch eiriolwr yn cael cyfle i fynegi eich dymuniadau a'ch teimladau.**



Unwaith y bydd yr holl wybodaeth wedi'i rhannu, bydd y Cadeirydd yn crynhoi'r cryfderau a'r risgiau i'ch teulu.



Yna, mae angen i bob gweithiwr proffesiynol benderfynu a ydych chi wedi dioddef niwed sylweddol neu mewn perygl parhaus o niwed sylweddol.

Os felly, bydd eich enw yn cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o dan un o'r categorïau canlynol: Cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol, esgeulustod neu gam-drin emosiynol.

# Y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth



Os bydd eich enw'n cael ei roi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth amlasiantaeth yn cael ei roi ar waith.



Nod y cynllun yw gweithio gyda'n gilydd i leihau'r risg o niwed i chi, gan edrych ar nodau tymor byr a nodau hirdymor i hyrwyddo eich diogelwch a'ch lles.

# Beth sy'n digwydd ar ôl i'r Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth gael ei roi ar waith?




Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn ymweld â chi o leiaf bob deg diwrnod gwaith.



Bydd Cyfarfodydd Grŵp Craidd misol i adolygu eich Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth, y gallwch chi a/neu'ch eiriolwr ei fynychu. Bydd y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n agos gyda chi a'ch teulu yno.



Byddan nhw'n siarad am lwyddiant y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth o ran helpu lleihau'r risg i chi a hyrwyddo eich lles.

# Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant



Bydd Cynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant yn cael ei chynnal ymhen 3 mis.




Dylai'r gynhadledd adolygu ystyried cynnydd y Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth o ran lleihau'r risg o niwed a hyrwyddo eich diogelwch a'ch lles.



Gallai penderfyniad gael ei wneud i'ch enw aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os felly, byddai eich Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn parhau am 6 mis arall.

Os bydd penderfyniad yn cael ei wneud nad ydych chi bellach mewn perygl parhaus o niwed, gall eich enw gael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

# Fy Nodiadau